ARCHIFDY SIR Y FFLINT

FFOTOGRAFFIAETH YR YN YSTAFELL CHWILIO

Ein prif ddyletswydd yw diogelu'r dogfennau sydd yn ein gofal a dylai'n hystafell chwilio fod ar gael i bawb gael edrych ar y dogfennau hynny heb deimlo'n anghyfforddus a heb i neb darfu arnynt. Os byddwch yn defnyddio camera yn yr ystafell chwilio rhaid i chi ofalu'ch bod yn cydymffurfio â'r blaenoriaethau hyn.

Rydym yn caniatáu ffotograffiaeth yn yr ystafell chwilio o dan amodau arbennig. Bydd angen i chi ddarllen datganiad am "ddelio teg" a phrynu un o'r trwyddedau a ganlyn:

Diwrnod	£5.00
Wythnos	£12.50
Mis	£30.00
Blwyddyn	£50.00

Ar ôl cael Trwydded, **rhaid** i chi holi aelod o staff bob tro cyn tynnu llun unrhyw ddogfen. Mae angen gwneud hyn er mwyn sicrhau nad oes modd difrodi dogfen drwy dynnu ei llun â chamera. Cewch logo bychan Cyngor Sir y Fflint gan un o'r staff ac mae'n rhaid i chi gynnwys hwn gyda phob ffotograff.

Mae'r Archifdy yn cadw'r hawl i wrthod caniatâd i chi dynnu llun unrhyw eitem unigol â chamera.

Ni chewch ddefnyddio treipod nac offer tebyg yn yr ystafell chwilio. Os ydych yn dymuno defnyddio offer o'r fath rhaid i chi drefnu ymlaen llaw er mwyn medru trefnu goruchwyliaeth mewn ystafell ar wahân. Mae tal o £7 am bob hanner awr yn daladwy yn y cyswllt hwn yn ogystal â'r tâl am y Drwydded.

SYLWCH nad ydyn yn caniatáu i neb ddefnyddio fflach nac unrhyw fath arall o oleuadau ffotograffig yn yr ystafell chwilio neu yn y rhan honno o'r adeilad lle ceir goruchwyliaeth arbennig oherwydd y gallant greu difrod i ddeunyddiau.

Mis Mawrth 2016